**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Copïau at: Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

15 Rhagfyr 2022

Gwerthusiad o waith ymgysylltu Llywodraeth Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA

Annwyl Mark

Rydym yn ysgrifennu atoch ynglŷn â gwerthuso gweithgareddau Llywodraeth Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA yn Qatar. Roedd Cwpan y Byd FIFA yn gyfle gwerthfawr i Gymru arddangos ein hegwyddorion a'n gwerthoedd i'r byd. Rydym felly'n awyddus i sicrhau bod gwaddol parhaus i'r wlad ar ôl i dîm dynion Cymru gymryd rhan yn y twrnamaint, ac i ddeall pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer cyfleoedd diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol.

Mewn datganiad ar 15 Tachwedd 2022, dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Senedd mai pedwar amcan allweddol Llywodraeth Cymru yng Nghwpan y Byd oedd "*hyrwyddo Cymru; cyflwyno ein gwerthoedd; sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru; a, sicrhau gwaddol cadarnhaol o'n cyfranogiad*."

Yn yr un datganiad i'r Senedd, dywedodd y Gweinidog:

> *I wneud yn siwr ein bod ni'n sicrhau gwaddol cadarnhaol a pharhaol, byddwn yn gwerthuso'r gweithgareddau hyn wrth gefnogi cwpan y byd i ddysgu gwersi o'r ymyriadau hyn ar gyfer cyfleoedd diplomyddiaeth mewn chwaraeon yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i'n blaenoriaethau buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon yma yng Nghymru, gyda chyllideb gyfalaf o £24 miliwn dros y tair blynedd nesaf ochr yn ochr â'n buddsoddiad mewn cyfleusterau ysgolion.*

Rydym yn awyddus i ofyn i chi am fanylion eich gwerthusiad o'r gweithgareddau hyn a sut y gwnaethant gyfrannu at eich pedwar amcan allweddol.

O ystyried maint y cyfle yn sgil Cwpan y Byd, yn ogystal â'r cyllid sylweddol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gweithgareddau, credwn fod angen i werthusiad o'r fath fod yn drylwyr. Er ei bod yn bwysig dathlu llwyddiant y tîm wrth gyrraedd y rowndiau terfynol, mae hefyd yn hanfodol ein bod yn deall effeithiolrwydd y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru a thramor, fel sail ar gyfer yr agwedd at ddigwyddiadau chwaraeon yn y dyfodol ac agwedd ehangach Llywodraeth Cymru at ddiplomyddiaeth chwaraeon. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud y canlynol wrthym:

- Pwy fydd yn cynnal y gwerthusiad hwn – hynny yw, ai Llywodraeth Cymru neu a fydd gofyn i drydydd parti ei wneud?
- Pryd fydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi?
- Beth oedd y dangosyddion perfformiad allweddol a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r gwaith hwn ym mis Mehefin 2022, hynny yw, cyn cynnal unrhyw brisiad?
- Beth oedd y dangosyddion perfformiad allweddol a'r targedau mesuradwy sy'n gysylltiedig â'ch amcanion craidd, ac i ba raddau y cyflawnwyd y rhain?
- A oes unrhyw ganlyniadau penodol eraill o ganlyniad i'ch gweithgareddau na chawsant eu cynnwys yn eich dangosyddion perfformiad allweddol?
- A fydd y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o'r gwersi a ddysgwyd fel sail ar gyfer gweithgareddau a dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau mawr yn y dyfodol a chyfleoedd o ran diplomyddiaeth chwaraeon?
- A fydd y gwerthusiad yn ystyried cryfderau a gwendidau eich gweithgareddau?
- A fydd y gwerthusiad yn dangos pa mor effeithiol yr ydych wedi defnyddio'ch adnoddau h.y. cyllid?

Hoffem fod yn glir nad beirniadu Llywodraeth Cymru yw'r rheswm dros ein cais am y wybodaeth hon. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru wneud y math hwn o waith mewn digwyddiad byd-eang o'r maint hwn. Felly, ein bwriad yw sicrhau bod y gweithgareddau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gwerthuso'n briodol. Mae hyn yn golygu dathlu eich llwyddiannau yn ogystal â dysgu o'r profiad hwn a fydd, yn ei dro, yn rhoi llwyfan cryf ar gyfer y tro nesaf y byddwn yn cymryd rhan mewn digwyddiad byd-eang o'r maint hwn. Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.